| | |
|---|---|
| | **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**<br>**BRO'R WENYNEN, GWENT 2027** |
| | **Cystadleuaeth 165 – Perfformiad Theatrig i Grŵp Bl.10 a dan 19 oed** |
| | **Hen Stori, Nesta Wyn Jones** |

Fe wyddwn i dy fwriad
Wrth iti godi'th ben,
Roedd cwestiwn ar dy wefus
A chusan yn dy drem.

Roedd cryndod yn dy anadl
Wrth estyn dy ddwy law,
Fe'm daliwyd i yn rhwydau
Sidan llosg ganhwyllau
Dy lygaid di, a'm denai,
Ni allwn edrych draw …

Roedd angerdd ar dy ddwyfin
A bywyd yn dy drem,
- Fe wyddwn i dy feddwl, boi
  Pan godaist ti dy ben!